# JENKINS, JABEZ EDMUND ('Creidiol'; 1840 - 1903), clerigwr a bardd

**Enw:** Jabez Edmund Jenkins
**Ffugenw:** Creidiol
**Dyddiad geni:** 1840
**Dyddiad marw:** 1903
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yng Ngelligroes, ym mhlwyf Mynyddislwyn, sir Fynwy, 24 Rhagfyr 1840, a bedyddiwyd ef 16 Gorffennaf 1858, gan weinidog capel yr Annibynwyr ym Mynyddislwyn. Ordeiniwyd ef yn ddiacon 25 Chwefror 1872, cafodd guradiaeth Llanedi, Sir Gaerfyrddin; ar 24 Chwefror 1877 ordeiniwyd ef yn offeiriad gyda theitl i Lanfihangel Cwmdu, sir Frycheiniog. Trwyddedwyd ef i guradiaeth y Faenor ym Mrycheiniog, 17 Ebrill 1879, penodwyd ef yn offeiriad y plwyf hwnnw 16 Mai 1883, a bu yno hyd ei farwolaeth ar 4 Mehefin 1903.

Yn y Faenor cymerodd ran amlwg ym mywyd y lle, a bu'n aelod o amryw b  yllgorau fel bwrdd yr heolydd a'r cyngor lleol. Yr oedd yn eisteddfodwr brwdfrydig, a than yr enw barddol 'Creidiol' cyfansoddodd gryn dipyn o farddoniaeth. Cyhoeddwyd cyfrol o'i waith, *Dyddanion Min yr Hwyr, sef Rhiangerdd Emma Prys*, yn 1862, *Egin Awen, yn cynnwys awdlau, cywyddau ...*, yn 1867, a *Rhiangerdd - Gwenfron o'r Dyffryn*, yn 1868. Golygodd flodeugerdd o farddoniaeth, *Gardd y Beirdd; gan Ugain o Feirdd Cymru*, yn 1869, ac yn 1897 ymddangosodd ei *Vaynor, its History and Guide*.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


St. David's diocesan records yn Ll.G.C.

'Marwolaeth,' *Yr Haul*, Gorffennaf 1903, t.336

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

*South Wales Daily News*, 5 Mehefin 1903

W. Morgan, *The Vaynor handbook containing photographic views of Vaynor, Cefn Coed, Pontsarn and Morlais Castle, with the history and folk-lore of the parish* (Merthyr 1893)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733297


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu